OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 932

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchmynion Cychwyn Rhif 5, Rhif 6, Rhif 8, Rhif 13 a Rhif 14) 2023

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022**

**5.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 9 mewnosoder—

"**9A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2023 ac sydd ym mlwyddyn 6 neu ym mlwyddyn 10 yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024.

(2) Oni bai bod y gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, rhaid i'r corff llywodraethu sy'n darparu'r ddarpariaeth addysgol arbennig i'r plentyn roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024.".

(3) Yn erthygl 10—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "erthygl 9" mewnosoder "na 9A".

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "2023-2024" mewnosoder "neu'r flwyddyn ysgol 2024-2025".

(4) Yn erthygl 12(1) ar ôl "erthyglau 9," mewnosoder "9A,".

(5) Ar ôl erthygl 14 mewnosoder—

"**14A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn—

(a) a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2022,

(b) a oedd ym mlwyddyn 6 neu ym mlwyddyn 10 yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024, ac

(c) nad yw'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas ag ef ar 30 Awst 2024.

(2) Ar 31 Awst 2024—

(a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a

(b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.".

(6) Yn erthygl 15 yn lle "2024", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "2025".

(7) Yn erthygl 21(4)(a), ar ôl "9(2)" mewnosoder ", 9A(2)".

(8) Yn erthygl 22(3)(a), ar ôl "9(2)" mewnosoder ", 9A(2)".

(**1**) O.S. 2022/896 (Cy. 193) (C. 60).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*